Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cylch Meithrin Pencader**

**Ysgol Cae`r Felin**
**Pencader**
**Carmarthen**
**SA39 9AA**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

30/09/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn âCylch Meithrin Pencader

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Pencader |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 17 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma arolwg cyntaf y gwasanaeth |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Llawlyfr Mewnosod<br>Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Adequate** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Adequate** |
| **Yr Amgylchedd** | **Adequate** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Adequate** |

Ewch i ddiwedd yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth am raddau.

## Crynodeb

Mae rhan fwyaf o blant wedi setlo ac yn hapus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Maent wedi datblygu perthnasau agos gyda'u cyfoedion. Mae llawer o blant yn cael cyfleoedd i gyfathrebu a gwneud dewisiadau, ond nid yw llais y plentyn bob amser yn cael sylw.

Mae staff gofal yn dilyn rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau i hybu lles, diogelwch a ffyrdd o fyw iach. Maent yn nabod y plant ac yn cynnig rhai gweithgareddau i ennyn eu diddordebau. Ar y cyfan, mae staff gofal yn ymateb i anghenion llawer o blant, ond nid yw'r broses arsylwi a chynllunio yn cael sylw manwl er mwyn sicrhau cynnydd unigol y plant.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn gosod mesuriadau er mwyn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn cynnig ystod sylfaen o adnoddau i gwrdd â gofynion a chamau datblygiad unigol plant.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn cwrdd â rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ganddynt bartneriaeth dda gyda'r ysgol cyfagos a rhieni.

| **Llesiant** | **Adequate** |
|---|---|

Mae rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu yn hyderus ac maent wedi setlo o fewn y lleoliad. Mae llawer o blant yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae eu dymuniadau ar y cyfan yn cael eu hystyried, ond fe welwyd rhai amseroedd pan oedd ychydig o blant yn cael eu hatal i wneud y pethau yr oeddent yn dymuno neud, heb gael pethau eraill i'w ddiddanu.

Mae plant yn hapus, wedi setlo ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, er enghraifft, yn ystod yr ymweliad, fe welwyd plant yn mwynhau amser cylch wrth iddynt eistedd gyda'i gilydd a chymryd rhan. Mae plant yn gyfarwydd ag arfer dyddiol y lleoliad ac yn symud yn annibynnol ac yn hyderus o amgylch y lleoliad. Er enghraifft, fe welwyd plant wrth eu bodd yn chwarae'n hapus pan oeddent tu allan, yn mwynhau yn y tŷ bach twt ac wrth y twba tywod. Yn ystod yr ymweliad, fe welwyd bod y plant yn gyfforddus yn ein cwmni ac yn hapus ac hyderus i'n cynnwys yn rhai gweithgareddau, er enghraifft, offerynnau cerdd a chwarae rôl.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gadarnhaol wrth i'r plant chwarae a chydweithio yn gyson, ac mae rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb ac yn cymryd rhan wrth chwarae gyda'i gilydd. Fe welwyd bod y rhyngweithio rhwng y plant a'r staff gofal yn llai cyson, gyda llai o gyfathrebu a chydweithio.

Mae plant yn cael y dewis i fynd at ystod o adnoddau dan do ac yn yr awyr agored ac yn mwynhau ei chwarae. Ond, yn ystod yr ymweliad, fe welwyd bod strwythur y bore yn rheoli rhai gweithgareddau, gyda'r plant yn eistedd wrth y bwrdd am gyfnodau, er enghraifft wrth iddynt aros am y dasg ffocws, neu am ginio.

Mae plant yn cael amrywiaeth o gyfleoedd sydd yn addas ar gyfer eu hoedran/datblygiad, er enghraifft, tynnu lluniau a chamerâu, gwisgo i fyny a gemau sortio. Maent hefyd yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sydd yn eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain er enghraifft, mynd nôl a mlaen i'r tŷ bach, golchi a sychu dwylo, gweini ar y plant wrth rhoi llaeth. Fodd bynnag, ni welwyd plant yn gwisgo eu hunain, neu yn casglu platiau a chwpanau yn dilyn amser snac a chinio. Mae llawer o blant yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu, ond ar ddiwrnod yr ymweliad, fe welwyd plant yn colli diddordeb yn y dasg ffocws. Ni welwyd plant yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau unigol, na chael cyfleoedd i ddatrys problemau wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau i ddefnyddio siswrn, wrth i bob plentyn gwblhau yr un dasg. Ychydig o blant welwyd yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain, pan fyddant yn gofyn am gymorth.

**Gofal a Datblygiad** **Adequate**

Mae staff gofal yn dilyn rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Yn ystod yr ymweliad, fe welwyd staff gofal yn gwisgo ffedogau a menig ar gyfer amser snac a chinio wrth baratoi bwyd, ac eto yn ystod amser newid cewynnau, gyda'r gweithdrefnau cywir o newid a chofnodi yn cael eu dilyn. Mae rhan fwyaf o staff gofal yn gweithredu arferion glanhau a hylendid priodol, ond ni welwyd gweithdrefnau clir o olchi dwylo a sychu byrddau cyn ac ar ôl bwyta, gan bawb. Mae staff gofal yn deall ac yn ymarfer risgiau dyddiol ac yn adolygu asesiadau pryd mae angen. Maent yn deall gofynion a gweithdrefnau diogelu y lleoliad gyda bron bob un yn hyderus gyda phwy i gysylltu tu allan i'r lleoliad.

Mae staff gofal yn gyfarwydd ag arferion dyddiol y lleoliad gyda llawer yn rhyngweithio yn ystod gweithgareddau. Maent yn nabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o'u hwyliau a'u anghenion. Fodd bynnag, ni welwyd enghreifftiau cryf gan bawb o fod yn modelau rôl da, gyda ychydig o staff gofal yn colli cyfleoedd i annog plant i wneud dewisiadau a phenderfyniadau, neu trafod a sgwrsio gyda'r plant. Ar y cyfan, mae'r rhyngweithio gan rhan fwyaf o staff gofal yn gadarnhaol ac yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae gan rhan fwyaf o staff gofal dealltwriaeth priodol o sut i hyrwyddo hawliau plant, ond roedd rhai enghreifftiau yn ystod yr ymweliad lle nad oedd llais bob plentyn yn cael ei barchu a chlywed, er enghraifft yn ystod y tasg ffocws.

Mae llawer o staff gofal yn gweithio i ddarparu amrywiaeth briodol o weithgareddau chwarae a dysgu ac yn ymwybodol o ddatblygiad y plant. Fodd bynnag, ni welwyd bod gweithgareddau wedi eu cynllunio yn ôl sgiliau y plant er mwyn sicrhau cynnydd eu datblygiad unigol. Yn ystod yr ymweliad, fe welwyd llyfrau gwaith unigol y plant yn dangos tystiolaeth o weithgareddau unigol bob plentyn ac mae llawer o staff gofal yn ymwybodol ac yn deall sut i gefnogi anghenion ychwanegol, er enghraifft lleferydd ac iaith. Fodd bynnag, ni welwyd gweithgareddau penodol ar gyfer y sawl ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Yr Amgylchedd Adequate

Lleolir y gwasanaeth mewn ystafell yn yr ysgol, gyda mynediad i ardal allanol eang sydd yn gaeedig. Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd glân, cynnes a diogel. Mae'r lleoliad yn cynnig lefel da iawn o ddiogelwch ac o dan glo ar bob adeg, sydd yn caniatáu plant i gael rhyddid i symud yn annibynnol o amgylch yr ardal mewnol, a'r ardal allanol o fewn gatiau diogel y lleoliad. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod asesiadau risg dyddiol a chyffredinol yn ogystal ac asesiadau perygl tân mewn lle ac yn cael eu hymarfer a'u hadolygu yn rheolaidd. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod cymarebau staff gofal i blant yn gywir bob amser. Mae plant yn annibynnol wrth iddynt ddefnyddio tai bach. Mae llyfr ymwelwyr, rotas, cofrestr y plant a chofnod arwyddo y staff yn eu lle ac yn sicrhau diogelwch y plant a'r lleoliad.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr ardaloedd mewnol ac allanol yn ddiogel, ac yn cynnig amgylchedd pwrpasol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ardaloedd tu fewn ac yn yr awyr agored yn hyrwyddo annibyniaeth y plant wrth i'r adnoddau a'r darpariaeth fod ar gael iddynt, ac o fewn cyrraedd bob plentyn. Fodd bynnag, mae'r dewis sydd ar gael yn gyfyng a mae cyfleoedd i hyrwyddo sgiliau'r plant yn bellach yn cael eu colli. Er enghraifft, nid oedd sisyrnau ar gael i'r plant gael defnyddio yn eu chwarae, er taw hyn oedd y sgil am yr wythnos. Mae'r lleoliad yn cynnig ardaloedd sydd yn cynnig lle i storio gwaith papur yn gyfrinachol, ardal i baratoi byrbrydau ac ardal yn y cyntedd, lle mae modd cynnal trafodaethau cyfrinachol gyda rhieni, gofalwyr ac ymwelwyr. Nid yw'r lleoliad wedi cael ei arolygu gan yr asiantaeth bwyd.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn darparu dewis syml o adnoddau da i'r plant, ond gwelwyd plant yn tynnu adnoddau eraill allan o focsys storio. Mae'r ardal chwarae yn yr awyr agored yn eang iawn gyda digon o le i'r plant cael symud yn rhydd. Fodd bynnag, nid oedd plant yn cael y dewis o fynd allan pan y dymunir.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Adequate |
| --- | --- |

Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn cwrdd a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn drefnus o rhan adolygu polisïau, tystysgrifau, gwybodaeth a chofnodion. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o staff gofal yn dilyn y polisïau o hyd, er enghraifft y bolisi ymddygiad lle roedd anghysondeb yn y gweithdrefnau a sut oedd staff gofal yn ymateb i ymddygiad plant. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth da iawn o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Mae arweinwyr yn y broses o hunan arfarnu y gwasanaeth drwy trafodaeth gyda rhieni a phlant er mwyn cynllunio a datblygiad pellach.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod system cadarn mewn lle pan yn cyflogi staff newydd, gyda dogfennaeth cywir yn ffeils y staff gofal sydd yn cael eu storio yn ddiogel. Gwelwyd tystiolaeth o goruchwylio a gwerthuso blynyddol gyda'r staff gofal.

Mae arweinwyr wedi sefydlu cysylltiadau ag amrywiaeth eang o ddefnyddwyr y gwasanaeth, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Maent wedi sefydlu bartneriaeth cryf a deallus gyda'r ysgol. Mae hyn yn creu sail ar gyfer system cadarn a llwyddiannus o pontio i'r plant pan maent yn symud ymlaen. Siaradwyd a rhieni a'r ddiwrnod yr ymweliad a oedd yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a rhannu bod eu plant yn hapus iawn.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

R1 – sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei clywed.

R2 – cynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau annibynnol / gwneud dewisiadau

R3 – cryfhau canllawiau hylendid.

R4 – sicrhau cynllunio gweithgareddau sydd wedi eu paratoi ar gyfer gallu y plentyn.

R5 – diweddaru a thrafod y bolisi ymddygiad a sicrhau cysondeb o sut mae staff yn ymateb i ymddygiad plant.

R6 – cysylltu a gwasanaeth safonau bwyd

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na.<br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/12/2022